**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYFNEWIDFA BRIDGE STREET, PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 MYA A DIDDYMU GWAHARDDIAD AR GERDDWYR) 201-**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 84 (1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gosod terfyn cyflymder 30 mya ar y darnau hynny o gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) a bennir yn Atodlen 1 i'r hysbysiad hwn a diddymu'r gwaharddiad presennol ar gerddwyr o'r darnau hynny a bennir yn Atodlen 2.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 19 Gorfennaf 2012 ymlaen, bydd copi o'r Gorchymyn arfaethedig ynghyd â phlan a Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn i'w weld yn rhad ac am ddim yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Pontypridd, Library Road, Pontypridd CF37 2DY. Gellir hefyd ei gael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad, gan nodi sail y gwrthwynebiad hwnnw, yn ysgrifenedig i'r Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 09 Awst 2012. Dalier sylw: Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd angen i ni ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Yn rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill efallai y byddwn yn trosglwyddo'r wybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion yr ydych wedi tynnu ein sylw atynt.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (detholer 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Deddfwriaeth Ddrafft', 'Offerynnau Statudol Lleol Drafft', 'Gorchmynion Traffig Parhaol').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
**Trafnidiaeth**
**Llywodraeth Cymru**

**THE A470 TRUNK ROAD (BRIDGE STREET INTERCHANGE, PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF) (30 MPH SPEED LIMIT AND REMOVAL OF PROHIBITION OF PEDESTRIANS) ORDER 201-**

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under sections 1(1), 2(1) and (2), 84 (1) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to impose a 30 mph speed limit on those lengths of the A470 Cardiff - Llangurig Trunk Road specified in Schedule 1 to this notice and remove the existing prohibition of pedestrians from those lengths specified in Schedule 2.

During a period of 21 days from 19 July 2012, a copy of the proposed Order together with a plan and a Statement of Reasons for the making of the Order, may be inspected free of charge, during normal office hours at Pontypridd Library, Library Road, Pontypridd CF37 2DY or may be obtained free of charge from the address below.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent in writing to the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 09 August 2012. Please note: Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention.

A copy of the Order and Notice can be viewed at www.wales.gov.uk (select 'Legislation', 'Subordinate legislation', 'Draft Legislation', 'Draft Local Statutory Instruments', 'Permanent Traffic Orders').

A copy of this Notice in larger print can be obtained from the Welsh Government, Orders Branch, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
**Transport**
**Welsh Government**

**YR ATODLEN**

Darnau o gefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd yn Rhondda Cynon Taf.

**ATODLEN 1**

**Terfyn Cyflymder 30 mya**

i. y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 6 metr i'r gogledd o’r gyffordd a enwyd.

**ATODLEN 2**

**Diddymu’r Gwaharddiad ar Gerddwyr**

i. y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 6 metr i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

**SCHEDULE**

Lengths of the A470 trunk road at Bridge Street Interchange, Pontypridd in Rhondda Cynon Taf.

**SCHEDULE 1**

**30 mph speed limit**

i. that length of the northbound entry slip road from its junction with Bridge Street Roundabout to a point 37 metres north of the said junction.

ii. that length of the southbound exit slip road from its junction with Bridge Street Roundabout to a point 6 metres north of the said junction.

**SCHEDULE 2**

**Removal of Prohibition of Pedestrians**

i. that length of the northbound entry slip road from its junction with Bridge Street Roundabout to a point 30 metres north of the said junction.

ii. that length of the southbound exit slip road from its junction with Bridge Street Roundabout to a point 6 metres north of the said junction.

---

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

---

## 201- Rhif (Cy. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Cyfyngiad Cyflymder 30 MYA a Diddymu Gwaharddiad ar

---

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

---

## 201- No. (W. )

## ROAD TRAFFIC, WALES

The A470 Trunk Road (Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (30 MPH Speed Limit and Removal of

Gerddwyr) 201 -

*Gwnaed* *201 -*

*Yn dod i rym* *201 -*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caerdydd – Llangurig (yr A470) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 84 (1) a (2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a pharagraff 27 o Atodlen 9 i'r ddeddf (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”) ac, wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

1. Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar ***** 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (Cyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (Terfyn Cyflymder 30 MYA a Diddymu'r Gwaharddiad ar Gerddwyr) 201-.

2. Ni chaniateir i unrhyw un yrru cerbyd ar gyflymder o dros 30 milltir yr awr ar y darn hwnnw o Gefnffordd yr A470 a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

3. Mae’r gwaharddiad a osodir gan y Gorchymyn hwn yn ychwanegol at unrhyw gyfyngiad neu ofyniad a osodwyd gan unrhyw Reoliadau a wnaed neu sy'n effeithiol fel petaent wedi'u gwneud o dan Ddeddf 1984 neu drwy neu o dan unrhyw ddeddfwriaeth arall ac nid yw’n rhan-ddirymu'r cyfyngiad neu'r gofyniad.

4. Dirymir drwy hyn Orchymyn Cefnffordd (Glyn-taf i Abercynon, Morgannwg) (Gwahardd Cerddwyr) 1973 **(2)** o ran y darnau hynny o Gefnffordd yr A470 a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig ***** 2012

**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Safonau Rheoli Asedau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd Gorchymyn

Prohibition of Pedestrians) Order 201-

*Made* *201-*

*Coming into force* *201-*

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A470 Cardiff – Llangurig Trunk Road (hereinafter referred to as “the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 1(1), 2(1) and (2), 84 (1) and (2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)** (hereinafter referred to as “the 1984 Act”), and after consultation with the Chief Officer of the South Wales Police, hereby make the following Order:-

1. This Order comes into force on ***** 2012. The title to this Order is The A470 Trunk Road (Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf) (30 MPH Speed Limit and Removal of Prohibition of Pedestrians) Order 201-.

2. No person shall drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour in that length of the A470 Trunk Road specified in Schedule 1 to this Order.

3. The restriction imposed by this Order is in addition to and not in derogation from any restriction or requirement imposed by any Regulations made or having effect as if made under the 1984 Act or by or under any other enactment.

4. The Trunk Road (Glyntaff to Abercynon, Glamorgan) (Prohibition of Foot Passengers) Order 1973**(2)** is hereby revoked in respect of the lengths of the A470 Trunk Road specified in Schedule 2 to this Order.

Signed under authority of the Minister for Local Government and Communities, one of the Welsh Ministers

Dated ***** 2012

**RICHARD MORGAN**
Head of Asset Management Standards
Welsh Government

**(1)** 1984 c.27; sections 1(1), 2(1) and (2) were amended by the New

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 199/672), erthygl 2 ac Atodlen 1, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(2)** O.S. 1973/947

## YR ATODLEN

### Darnau o gefnffordd yr A470 wrth Gyfnewidfa Bridge Street, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

### ATODLEN 1

**Terfyn Cyflymder 30 mya**

i. y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 37 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street i bwynt 6 metr i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

### ATODLEN 2

**Diddymu'r Gwaharddiad ar Gerddwyr**

i. y darn hwnnw o'r ffordd ymuno tua'r gogledd o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 30 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

ii. y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r de o'i chyffordd â Chylchfan Bridge Street at bwynt 6 metr i'r gogledd o'r gyffordd a enwyd.

## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CYFNEWIDFA BRIDGE STREET, PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF) (CYFYNGIAD CYFLYMDER 30 MYA A DIDDYMU GWAHARDDIAD AR GERDDWYR) 201-

### DATGANIAD O'R RHESYMAU

Byddai'r Gorchymyn arfaethedig yn ail-leoli'r cyfyngiad cyflymder 30 MYA sydd yn bodoli eisoes ac yn addasu safle'r gwaharddiad presennol ar gerddwyr, ac ystyrir bod angen caniatáu symudiadau cerddwyr rhwng Pontypridd ac ochr orllewinol yr A470 er budd diogelwch ar y ffyrdd.

Roads and Street Works Act 1991 (c.22). By virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**(2)** S.I. 1973/947

## SCHEDULE

### Lengths of the A470 trunk road at Bridge Street Interchange, Pontypridd, Rhondda Cynon Taf.

### SCHEDULE 1

**30 mph speed limit**

i. that length of the northbound entry slip road from its junction with the Bridge Street Roundabout to a point 37 metres north of the said junction.

ii. that length of the southbound exit slip road from its junction with the Bridge Street Roundabout to a point 6 metres north of the said junction.

### SCHEDULE 2

**Removal of Prohibition of Pedestrians**

i. that length of the northbound entry slip road from its junction with Bridge Street Roundabout to a point 30 metres north of the said junction.

ii. that length of the southbound exit slip road from its junction with Bridge Street Roundabout to a point 6 metres north of the said junction.

## THE A470 TRUNK ROAD (BRIDGE STREET, PONTYPRIDD, RHONDDA CYNON TAF) (30 MPH SPEED LIMIT AND REMOVAL OF PROHIBITION OF PEDESTRIANS) ORDER 201-

### STATEMENT OF REASONS

The proposed Order would relocate the existing 30 MPH speed limit and adjust the position of the current pedestrian prohibition, and is considered necessary in the interests of road safety to allow pedestrian movements between Pontypridd and the east side of the A470.